# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Seren Day Nursery**

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**
**Campws Llanbedr Pont Steffan**
**Stryd y Coleg**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 7ED**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn y Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

12/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Seren Day Nursery

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Seren Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Dwyieithog |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Mehefin 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, yn datgan brwdfrydedd, ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae gan y plant ryddid i chwilota eu hystafell chwarae, maent yn dewis pa deganau maent am chwarae â nhw, ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r plant yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol ac yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Mae'r plant yn canolbwyntio ar eu chwarae ac yn ymddiddori ynddo ac yn rhannu eu cyffro gyda'r staff.

Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu bron pob un o'r polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol. Ar y cyfan, maent yn dilyn arferion hylendid effeithiol bron bob amser. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai mannau bach. Mae'r staff gofal yn gweithredu rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn cynllunio, paratoi a chynnal gweithgareddau addas ar gyfer y plant yn eu gofal.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cynnig amgylchedd addas, saff a diogel. Maent yn darparu ystod dda o deganau, adnoddau ac offer i'r plant eu defnyddio. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardal tu allan mor aml â phosib.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cadw bron pob un o'u polisïau cofnodion ac asesiadau risg yn gyfredol. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw'r staff gofal yn eu gweithredu'n llawn ar bob adeg. Maent yn pwyso a mesur eu gwasanaeth ac yn cyflwyno adroddiad ansawdd gofal gwerthfawr. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cynnal gwiriadau addasrwydd digonol ac maent yn cyfathrebu yn dda â rhieni.

## Llesiant

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Clywsom y plant yn dewis pa bwdin y byddent yn ei hoffi amser cinio ac, yn ystod amser cinio, roedd y plant ifancaf yn defnyddio arwyddion dieiriau i ofyn am ragor o fwyd, gan dderbyn ymateb cadarnhaol oddi wrth y staff. Mae gan blant ryddid i chwilota eu hystafell chwarae ac i ddewis pa deganau y maent am chwarae â hwy. Gall y plant fynd yn annibynnol at ddŵr drwy gydol y dydd.

Mae plant yn hapus yn y lleoliad. Maent yn adnabod y trefniadau arferol yn dda, hyd yn oed gyda'r arferion glanhau a hylendid ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Maent yn golchi eu dwylo ar amserau addas ac yn helpu i dacluso teganau a'u rhoi i gadw ar ôl gorffen chwarae â nhw. Mae'r plant yn gwenu ar y staff gofal ac yn cynnig rhannu eu bwyd a'u teganau gyda nhw. Maent yn eistedd gydag aelodau o'r staff wrth chwarae ac yn gofyn iddynt am gymorth. Dywedodd rhieni fod plant yn mwynhau mynd i'r gwasanaeth yn fawr iawn.

Mae gan y plant ymrwymiadau hoffter da gyda'r staff gofal, ac yn chwilio am bobl gyfarwydd y maent yn gwybod y byddant yn barod i'w cynorthwyo. Er enghraifft, pan ddihunodd un o'r plant ar ôl cwsg byr yn y bore, gofynnodd yn benodol am un o'r staff gofal wrth ei enw. Mae'r plant ifancaf yn preblan yn hapus wrth yr oedolion a'r plant eraill o'u cwmpas drwy gydol y dydd. Mae'r plant yn dechrau dysgu am rannau a chymryd eu tro a gwelsom blant yn pasio teganau i'w gilydd. Maent yn dechrau datblygu cyfeillgarwch ac yn dangos ystyriaeth tuag at ei gilydd. Er enghraifft, pan ddymchwelodd tŵr blociau un o'r plant, daeth plentyn arall i helpu codi'r blociau, gan ei fod yn medru gweld ei fod yn drist.

Mae plant yn mwynhau chwarae ac yn ddysgwyr chwilfrydig a chynhyrfus. Er enghraifft, paentiodd plant blastig swigod yn gyffrous yn lliwiau'r hydref. Gall blant nad ydynt am gymryd rhan yn y gweithgareddau dan arweiniad oedolion ddewis chwarae yn annibynnol ag adnoddau eraill. Roedd bron pob plentyn yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau am gyfnodau priodol. Er enghraifft, gwelsom blant yn mwynhau chwarae â theganau adeiladu gyda'u cyfoedion a staff gofal a phlant ifancach yn canolbwyntio yn astud wrth liwio.

Mae'r plant yn profi cyfleoedd diddorol sy'n addas i'w datblygiad. Maent yn dangos diddordeb ac yn ymateb i'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, yn ystod un gweithgaredd, gwenodd plentyn ifancach yn falch ar ôl dangos gorila i un o'r staff gofal, gan wneud synau gorila iddo. Mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau annibyniaeth, sydd yn eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, gwelsom un babi yn gwneud ei ffordd tuag at degan gwthio i gynorthwyo cerdded yr oedd am chwarae ag ef. Pwyntiodd plant at arddangosfeydd ar y waliau, gan enwi'r pethau yr oeddent yn eu gweld ac yna'n ailadrodd geiriau yn ôl i'r staff.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y staff gofal dealltwriaeth drwyadl o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant a'u cadw'n ddiogel. Ar y cyfan, mae'r staff gofal yn deall, gweithredu ac yn dilyn arferion hylendid effeithiol. Fodd bynnag, mae ychydig o feysydd y mae angen eu gwella. Er enghraifft, cododd staff gofal gwpan â chlawr oddi ar y llawr a'i roi yn ôl yn syth i'r plentyn. Maent yn dilyn arferion glanhau da ac yn golchi dwylo yn drwyadl ac yn aml. Er enghraifft, golchodd staff gofal eu dwylo ar ôl dod yn ôl o godi plant o'r ysgol ac roeddent yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o hoffterau neu anghenion deietegol y plant ac yn cynnig ystod o fyrbrydau a phrydiau bwyd iach i'r plant. Esboniodd y staff gofal eu bod nhw'n cwblhau hyfforddiant i adnabod symptomau adweithiau alergaidd a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ddefnyddio EpiPen.

Mae staff gofal profiadol a chymwys yn gofalu am blant yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson fel bod plant yn gwybod beth yw'r disgwyliadau. Er enghraifft, ymyrrodd staff gofal yn briodol ac yn dawel pan oedd anghytuno rhwng plant. Maent yn annog y plant i rannu adnoddau (*"rhannu yn neis nawr"*), yn defnyddio canmoliaeth yn gyson i atgyfnerthu ymddygiad da, ac yn batrymau ymddwyn cadarnhaol i'r plant. Mae'r staff gofal yn siarad â'r plant drwy'r dydd, yn gofyn cwestiynau ac ailadrodd geiriau'r plant, neu fod yn rhan o'u chwarae/gweithgareddau. Er enghraifft, gofynnodd staff gofal gwestiynau am ddiwrnod y plant hŷn yn yr ysgol, gan sgwrsio â nhw wrth iddynt fwyta eu byrbryd.

Mae'r staff gofal yn gwrando ar blant ac yn parchu eu barn. Mae'r staff gofal yn rhyngweithio yn gynnes ac yn garedig gyda'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando yn astud ar anghenion y plant ac yn datblygu dealltwriaeth y plant drwy ofyn cwestiynau priodol. *"Ti'n iawn? Ti eisiau ychydig o help?"* Mae'r staff gofal yn annog plant yn gyson i wneud pethau drostynt eu hunain, ond yn cynnig cymorth hefyd os oes angen. Er enghraifft, mae staff gofal yn annog babanod hŷn i fwyta eu prif bryd bwyd â phlatiau gweflog a llwyau i'w helpu i fwydo yn annibynnol, ond mae staff hefyd yn cynorthwyo os ydynt yn gweld bod plant yn mynd yn rhwystredig. Mae ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth dda mewn perthynas ag anghenion datblygiadol y plant, gan gynllunio gweithgareddau gyda'i gilydd a chynnwys syniadau ac awgrymiadau'r plant. Maent yn defnyddio cynlluniau hirdymor, tymor byr ac â ffocws sy'n addas i oedran y plant a'u cam datblygu. Maent yn asesu cynnydd y plant ac yn bwydo'r wybodaeth hon i'r cynlluniau gweithgareddau. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo iaith gartref y plant, a'r Gymraeg yw'r iaith bennaf yn y lleoliad. Mae'r staff gofal yn siarad â'r plant yn ddwyieithog pan fydd angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n  dda, y tu fewn a'r tu allan. Mae mynediad i'r lleoliad ac oddi yno yn ddiogel ac mae  mesurau diogelwch trwyadl ar waith. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod arferion glanhau trefnus i gynnal dulliau rheoli heintiau. Mae polisïau newydd a diwygiedig ar waith i leihau heintiau rhag lledaenu oherwydd COVID-19. Mae'r safle yn gynnes ac yn groesawgar, ac wedi'i addurno â gwaith celf y plant. Mae'r plant yn elwa o gael golau naturiol yn yr adrannau gwahanol o fewn y prif ystafelloedd chwarae oherwydd y ffenestri mawr. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn nodi ac yn lleihau peryglon i ddiogelwch plant yn dda iawn. Maent yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch trwyadl ac yn gweithio gyda'r landlord i gynnal a chadw'r eiddo. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, yn cofnodi'r manylion, ac yn eu ffeilio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid ydynt yn dilyn yr amlder sydd wedi'i nodi yn y polisi ymarferion tân.

Mae'r lleoliad yn cynnig gofod chwarae digonol i bron pob ystod oedran yn ogystal ag ardal ar wahân yn yr awyr agored i'r plant ieuangach a'r plant hŷn. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd yr ardal a ddefnyddir i'r plant ar ôl yr ysgol yn gyfyngedig yn sgil storio adnoddau ac offer. Esboniodd y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad na fyddai'r plant ar ôl yr ysgol fel rheol yn aros yn yr ardal, ac y byddent yn defnyddio gofod mwy o faint neu'r tu allan. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi trefnu a symud yr adnoddau ac offer dros ben er mwyn creu gofod chwarae llawer mwy.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cynnig offer chwarae sy'n briodol o ran oedran ac mae'r plant yn gallu cyrchu'r teganau yn annibynnol, gan eu bod nhw wedi eu storio ar lefel briodol. Maent yn cynnal a chadw'r offer er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i blant. Mae'r plant yn cymdeithasu yn hapus gan eu bod yn eistedd ar gadeiriau a chadeiriau uchel, ac wrth fyrddau, sy'n briodol i'w hoedrannau. Ar y cyfan, mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn darparu adnoddau da i hybu chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan gynnwys ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Maent yn sicrhau bod bron pob plentyn yn gallu cyrchu amrywiaeth eang o deganau ac offer priodol o ansawdd da. Er enghraifft, doliau, teganau adeiladu, ardal chwarae rôl, teganau rhyngweithiol, rhai teganau meddal corfforol bach, a darnau rhydd i annog chwarae dychmygol. Dywedodd y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad eu bod nhw'n defnyddio'r gofod chwarae yn yr awyr agored mor aml â phosib, a bod plant yn gallu cyrchu teganau, adnoddau ac offer sy'n briodol i'w hoedrannau, gan gynnwys chwarae adeiladu, cyfarpar dringo, chwarae rôl, ac ardal teganau i'w gyrru.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad weledigaeth gref ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn rhannu hon gydag eraill. Maent yn cynnal a rhannu datganiad o ddiben cynhwysfawr a phroffesiynol cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n mynd y tu hwnt i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn adolygu eu polisïau yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod nhw'n cael eu gweithredu'n ymarferol i raddau helaeth gan y staff gofal. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal yn dilyn rhai o'r polisïau bob tro. Er enghraifft, nid yw'r staff gofal yn defnyddio ffedog untro wrth newid cewynnau. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cadw'r holl gofnodion gofynnol, gan gynnwys anghenion unigol, contractau a chaniatadau. Fodd bynnag, nid oedd y daflen cofnod meddyginiaeth yn dangos yn glir pryd yr oeddent yn rhoi'r feddyginiaeth ac nid oeddent yn diweddaru cofnod personol y plant i ddangos y newidiadau yn eu hanghenion deietegol. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi diweddaru eu taflen cofnod meddyginiaeth i gynnwys mwy o wybodaeth am y feddyginiaeth a dangos yn glir pryd y maent yn rhoi'r feddyginiaeth. Mae gan y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn gweithio'n weithredol tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn gweithredu prosesau hunanwerthuso yn weithredol. Maent yn ceisio ac yn gweithredu awgrymiadau'r plant, eu rhieni/gofalwyr, staff gofal, a phartneriaid eraill sydd â diddordeb. Maent yn cynhyrchu adroddiad effeithiol ar ansawdd y gofal, sydd yn cynnwys yr hyn y mae'r feithrinfa yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen ei wella, ynghyd â rhai amserlenni.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn gwneud gwiriadau addasrwydd ac mae gan y staff gofal i gyd dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys tystiolaeth am rai o'r gwiriadau maent yn eu gwneud. Er enghraifft, nid oeddent yn cynnwys cadarnhad am wiriadau adnabod yr oeddent yn eu gwneud. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi cynnwys tystiolaeth o'r holl wiriadau addasrwydd y maent yn eu gwneud. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac yn annog staff gofal i fynychu ystod o hyfforddiant ac i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Er enghraifft, mae staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd sydd o safon dda. Maent yn cadw cofnod o amserau mynychu gwirioneddol y plant a phwy oedd yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofnodi pwy sydd yn gwneud y teithiau i'r ysgol na phryd maent yn digwydd. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi dangos tystiolaeth o'r daflen gofnodi i ddangos yn glir pryd y maent yn gwneud y teithiau i'r ysgol. Dywedodd y staff eu bod nhw'n teimlo bod ganddynt gefnogaeth dda yn eu rolau a bod y rheolwyr yn gweithredu polisi drws agored.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod ganddynt systemau da ar waith i gyfathrebu'n effeithiol â rhieni. Maent yn cadw rhieni wedi'u hysbysu'n dda. Maent yn

rhannu gwybodaeth ddyddiol gyda rhieni, gan gynnwys gwybodaeth am newid cewynnau, bwyd a chwsg. Maent hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i hysbysu rhieni am newidiadau i'r lleoliad neu’r gweithgareddau. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau eu bod nhw’n dilyn gweithdrefnau a phrotocolau yn gyson pan fydd pryderon am gynnydd neu ddatblygiad y plant. Dywedodd y rhieni fod y gwasanaeth yn gefnogol ymhob agwedd o ddatblygiad eu plant, mae’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn ddyddiol, a gofynnir iddynt yn rheolaidd ynglŷn â’r hyn y gall y gwasanaeth ei wneud i wella.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Ymgyfarwyddo eu hunain â chanllawiau Iechyd  Cyhoeddus Cymru ar atal a rheoli heintiau a diweddaru polisïau lle mae hynny'n briodol.

A2 – Sicrhau bod staff gofal yn gweithredu'r holl bolisïau yn llawn.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 15 (1) (c) | Nid oedd y datganiad o ddiben yn bodloni rheoliadau na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. | Cyflawnwyd |
| 31 (1) Atodlen 4.02 (1) (b) | Nid oedd AGC yn cael ei hysbysu o newidiadau i'r staff. | Cyflawnwyd |
| 20 (1) (a) | Nid oedd darpariaeth briodol yn cael ei gwneud ar gyfer lles a gofal y plant hŷn yn ystod amser cinio. | Cyflawnwyd |
| 29 (3) (a) | Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi sefydlu system ar gyfer pob aelod o staff i gael goruchwyliaeth reolaidd. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 04/01/2022'